Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Ebrill 2018

Ar 16 Ebrill 2018, cafodd Bil Llywodraeth, Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), ei gyflwyno yn y Cynulliad.

Ar 13 Mawrth 2018, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysger mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 17 Ebrill 2018, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 6 Gorffennaf 2018.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 12 Hydref 2018, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.